

## Cofnodion Cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid Nos Fercher Mehefin 28<sup>ain</sup> 2017

**Presennol** Cyng Dewi W Jones Cyng Lowri James Cyng Jean Pierce, Cyng Bernard Jones a'r Cyng Cynrig E Hughes

**Ymddiheuriadau** Cyng Dafydd Jones Morris

Cadeirwyd gan Cyng Lowri James

### **Derbyn cofnodion cyfarfod Mai 24ain**

Derbynwyd fel cofnod cywir Cyng B. Jones yn cynnig a Cyng D. Jones yn eilio

**Materion yn codi** - Dim

### **Adroddiad ac argymhellion BDO 2015 -16**

Trafodwyd a nodwyd yr argymhellion dderbynwyd gan yr Archwilwyr Allanol BDO parthed adroddiad ariannol y Cyngor am y flwyddyn 2015-16.

Mynegwyd pryder ynglyn a be yn union oedd ei angen parthed gwerth asedau.

Awgrymwyd anfon esboniad (covering letter) o'n pryder hefo adroddiad ariannol 2016 -17 o gofio mae newydd dderbyn argymhellion BDO oedda ni

Cytunwyd i'r Clerc geisio cael eglurhad ar y prisio ag wedyn, os bydd yr angen, trefnu i gael Priswyr proffesiynol i brisio ein holl asedau.

Rhaid arddangos posteri yn dangos cwblhad cyfrifon 2015 -16 mewn man cyhoeddus am 14 diwrnod

### **Adroddiad Archwilydd mewnol - Cyfrifon 2016-17**

**'Roedd Cyngor llawn gyfarfu ar y 14<sup>eg</sup> o Fehefin wedi rhoi yr hawl i'r IBC yma dderbyn a chymeradwyo i'r Cadeirydd arwyddo adroddiad yr Archwilydd Mewnol a'i anfon ymlaen i'r Archwilwyr Allanol**

Darllenwyd adroddiad yr archwilydd mewnol ynghyd a'r esboniadau os oedd gwahaniaeth o fwy na £100.00 naill ffordd yn unrhyw un o'r adrannau cyllid.

### **Derbynwyd yr adroddiad a chymeradwyo y Cadeirydd i'w arwyddo**

Adroddiad Ariannol.

Dosbarthwyd adroddiad ariannol yn dangos yr Incwm a gwariant am Mis Mehefin ynghyd a'r swm oedd yn y cyfrif fel ar ddiwedd y diwrnod 30/06/17

Ceisiadau am nawdd (s. 137) Nid oedd unrhyw gais am nawdd

### **Argymhellion o'r Is Bwyllgor Asedau**

Er i'r cyfarfod asedau fod wedi cyfarfod y noson cynt ni ddaeth unrhyw 'brosiect newydd' ymlaen i'w roi gerbron y pwyllgor hwn.

Serch hynny argymhellir i ni fwrw ymlaen i brisio a gosod cysgodfan yn Rhyd y Groes ag ystyried safle Goleufryn fel safle arall. Y ddau brosiect yma wedi eu prisio ar gyfer peny y praespt ddiwedd 2015 -16

Gofynnwyd am adnewyddu bocs halen wrth waelod Clwt Rhywiog Rallt Pentir

### **Canolfan Penrhos**

Cynnigwyd ag eilio i'r Clerc gysylltu a Cyngor Gwynedd i weld os oedd unrhyw ffordd i ymestyn y Brydlas bresennol am ychydig, gan fod yn amser mor dyn erbyn hyn.

Esboniodd y Clerc fod credyd gan y Cyngor hefo'r **HMRC o £232.46** ond fod y cyfrifwyr sy'n trefnu y cyflog wedi egluro sut i'w adennill yn ol

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.45**